



Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru

29/10/2018

Annwyl Gadeirydd

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar hyn o bryd ar gyfnod 1 craffu ar Fil Awtistiaeth (Cymru). Hoffwn fanteisio ar y cyfle felly i dynnu eich sylw at yr angen i roi rhagor o sylw i'r Gymraeg ar wyneb y Bil. Yn benodol:

- Rwy'n croesawu'r cyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil. Er hynny, nid wyf yn credu ei fod yn mynd at wraidd bwriad y Bil 'i wneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ac anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru a diogelu a hyrwyddo eu hawliau ac at ddibenion cysylltiedig' yng nghyd-destun siaradwyr Cymraeg sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a'u teuluoedd yng Nghymru.
- Credaf y dylid cynnwys cymal penodol yn y Bil sy'n nodi y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth wneud yr holl ddarpariaethau sy'n ofynnol yn 2(1) y Bil drafft. Yn arbennig dylid cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth i **sicrhau** bod ystod briodol o wasanaethau a gweithwyr yn cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion gofal personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a theuluoedd a gofalwyr y personau hynny.
- Fe'ch anogaf i ystyried y darpariaethau ynghylch y Gymraeg yn y Ddeddf Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018¹ a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014² wrth ichi graffu ar y Bil drafft.

¹ Gweler er enghraifft adrannau 12 (6) a 12(7), er bod adrannau eraill perthnasol yn ogystal.

² http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



- Credaf y dylai'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 4 y bil arfaethedig gynnwys canllawiau penodol ynghylch yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r angen i hyfforddi a chynllunio gweithlu sy'n medru gwneud hynny.
 - Fe'ch anogaf yn gryf i ystyried cynnwys darpariaethau ynghylch casglu data am bobl sy'n dymuno derbyn gwasanaethau Cymraeg; y graddau y diwellir y gofyn hwnnw; a data am ymarferwyr yn y maes.
 - Fe'ch anogaf i ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau y bydd ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn codi ymwybyddiaeth ynghylch anghenion siaradwyr Cymraeg a dwyieithog sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.
1. Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau rhoddir dyletswyddau statudol ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o amcanion strategol y Comisiynydd yn ogystal yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a dyna a wneir yma mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ar y wefan www.comisiynyddygyymraeg.cymru.
 2. **Cefndir**
Yn f'ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Awtistiaeth arfaethedig ym mis Tachwedd 2017³ tynnais sylw at yr angen i ystyried y Gymraeg fel pwnc llorweddol mewn meysydd polisi a'r angen i roi'r Gymraeg ar wyneb y ddeddfwriaeth arfaethedig fel yr oedd. Tynnais sylw at y ffaith fod cam gweithredu 1.1 *Fframwaith Strategol Olynol Mwy na geiriau...*(Llywodraeth Cymru, 2016) yn ogystal yn cynnwys ymrwymiad i wneud hynny.
 3. *Fframwaith Strategol Olynol Mwy na geiriau...*(2016)⁴

Cyhoeddwyd fframweithiau *Mwy na geiriau* oherwydd bod cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod diffyg gwasanaethau iechyd a gofal ar gael i gleifion trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol nodir bod derbyn gwasanaethau Cymraeg yn angen ac yn rheidrydd clinigol i bobl sydd mewn rhai grwpiau arbennig gan gynnwys pobl ag anabledau dysgu. Mae'r fframwaith hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd y cynnig rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaethau gan nodi mai 'cyfrifoldeb GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau

3

<http://senedd.assembly.wales/documents/s69955/AWB64%20Welsh%20Language%20Commissioner%20Welsh%20only.pdf>

⁴ <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>



addas, sy'n cynnwys cyfarfod ag anghenion ieithyddol pobl. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gwasanaeth sy'n ddiogel ac yn effeithiol.⁵ Mae'r fframwaith presennol yn cynnwys camau gweithredu y mae angen eu cymryd mewn meysydd perthnasol i sicrhau y darperir gwasanaethau yn y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno hynny a hynny heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Arweinyddiaeth leol, genedlaethol a pholisi cenedlaethol
 - Mapio, archwilio, casglu data ac ymchwil
 - Cynllunio gwasanaethau, comisiynu, contractio a chynllunio'r gweithlu
 - Hybu ac ymgysylltu
 - Addysg broffesiynol
 - Y Gymraeg yn y gweithle
 - Rheoleiddio ac arolygu
4. Tynnais sylw at nifer o'r meysydd hyn yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil y llynedd. Yn benodol nodais fy mod yn ymwybodol bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn wynebu anawsterau wrth dderbyn diagnosis o gyflyrau drwy gyfrwng y Gymraeg ac y dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella mynediad at ddiagnosis drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mewn deddfwriaeth. Nodais hefyd y dylai'r bil sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol a'u darparu. Yn hynny o beth nodais hefyd bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu er mwyn i'r gweithlu hwnnw fedru ymateb yn gadarnhaol i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg wrth gynnig gwasanaethau. Yn ogystal, nodais y buaswn yn croesawu unrhyw gyfraniad y gallasai'r deddfwriaeth arfaethedig ei wneud i gyfoethogi'r sail dystiolaeth er mwyn gosod gwaelodlin ac olrhain cynnydd yn yr angen am wasanaethau awtistiaeth Cymraeg; gallu'r gweithlu i ddiwallu hynny a llwyddiant cael mynediad at wasanaethau Cymraeg.

5. **Bil Awtistiaeth (Cymru)**

Mae'r Bil yn cyfeirio mewn un man, sef 2(1)(g)(v), at yr angen i'r strategaeth awtistiaeth arfaethedig 'amlinellu sut y mae anghenion personau ac anhwylder sbectrwm awtistiaeth i'w diwallu gan gyrff perthnasol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau Cymraeg'. Rwyf wrth gwrs yn croesawu'r cyfeiriad hwn a wnaed mewn ymateb i sylwadau adeg yr ymgynghoriad ar y Bil arfaethedig. Er hynny, credaf nad yw'n ymateb yn ddigonol i'r pwyntiau y codais yn yr ymgynghoriad gwreiddiol nac yn cyfrannu at hwyluso amcanion *Mwy na Geiriau*. O'r herwydd nid yw ychwaith yn mynd at wraidd bwriad y Bil 'i wneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ac anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru a diogelu a hyrwyddo eu hawliau ac at ddibenion cysylltiedig' yng nghyd-destun siaradwyr Cymraeg sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a'u teuluoedd yng Nghymru. I bob pwrpas y cyfan a geir yn y cymal hwn yw gofyniad i amlinellu sut y bydd mynediad siaradwyr Cymraeg i wasanaethau awtistiaeth yn cael ei ddiwallu.

⁵ Ibid, t. 11.



Nid oes dim yn y Bil sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer sicrhau y darperir y gwasanaethau hynny drwy ystyried materion megis beth yw'r angen am wasanaethau, cynllunio gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, yr angen am brofion diagnostig addas, diffyg data ayb.

6. Credaf y dylid cynnwys cymal penodol yn y Bil sy'n nodi y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth wneud yr holl ddarpariaethau sy'n ofynnol yn 2(1). Yn arbennig dylid cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth i **sicrhau** bod ystod briodol o wasanaethau a gweithwyr **yn** cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion gofal personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a theuluoedd a gofalwyr y personau hynny. Yn hyn o beth fe'ch anogaf i ystyried y darpariaethau yn y Ddeddf Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018⁶. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol sy'n paratoi cynlluniau datblygu unigol, ac sy'n pennu ynddynt y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn Gymraeg i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Fe'ch anogaf yn ogystal i ystyried y canlyniadau llesiant o ran y Gymraeg a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁷, sef bod modd i unigolion allu dweud 'Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen.' Mae'r ddeddf yn gwneud darpariaethau ynghylch y Gymraeg gan gynnwys cyfrwng iaith asesiadau, ystyried y Gymraeg wrth gomisiynu a darparu gofal, ac mewn cynlluniau gofal unigol a baratoir yn unol â'r Ddeddf. Mae adran 14(1) yn nodi bod gofyn i awdurdodau lleol a phob Bwrdd lechyd Lleol asesu ar y cyd ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol. Rhaid iddynt hefyd asesu ar y cyd y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau a adnabuwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'ch anogaf i ystyried darpariaethau'r deddfau hyn wrth ichi graffu ar y Bil drafft.

7. **Adran 4, Canllawiau gan Weinidogion Cymru**

Yn ogystal â'r darpariaethau uchod credaf y dylai'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 4 y bil gynnwys canllawiau penodol ynghylch yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r angen i hyfforddi a chynllunio gweithlu sy'n medru gwneud hynny.

8. **Adran 6, Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth**

Fel y mae'r gofynion ynghylch casglu data yn strategaeth *Mwy na Geiriau* yn dyst iddynt, mae dirfawr angen rhagor o ddata am anghenion gofal a gwasanaethau siaradwyr Cymraeg er mwyn cynllunio yn well ar gyfer diwallu'r gofynion hynny. Fe'ch anogaf yn gryf i ystyried cynnwys darpariaethau ynghylch casglu data am

⁶ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/pdfs/anaw_20180002_we.pdf .Gweler er enghraifft adrannau 12 (6) a 12(7), er bod adrannau eraill perthnasol yn ogystal.

⁷ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

bobl sy'n dymuno derbyn gwasanaethau Cymraeg; y graddau y diwellir y gofyn hwnnw; a data am ymarferwyr yn y maes.

9. **Adran 7, Ymgyrch ymwybyddiaeth**

Fe'ch anogaf i ystyried yn y fan hon gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau y bydd ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn codi ymwybyddiaeth ynghylch anghenion siaradwyr Cymraeg a dwyieithog sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Edrychaf ymlaen at weld sylw llawn yn cael ei roi i'r Gymraeg a'r materion uchod wrth ichi a'r Pwyllgor graffu ar y Bil hwn er mwyn sicrhau y bydd y Bil yn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg